# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 16 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(215)

**Datganiad gan y Llywydd**
Cyhoeddodd y Llywydd fod y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2014, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:17

**Cynigion i ethol aelodau i bwyllgorau**
Dechreuodd yr eitem am 14:38.

**Cafodd y cynigion eu grwpio i'w trafod, a phleidleisiwyd arnynt gyda'i gilydd.**

**NDM5566 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Paul Davies (Ceidwadwyr Cymreig).

**NDM5567 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jane Hutt (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Lesley Griffiths (Llafur).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon: Adnewyddu'r Polisi Newid yn yr Hinsawdd - Gohiriwyd

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Dysgu o Adolygiadau o Nodiadau Achos Marwolaethdeb

Dechreuodd yr eitem am 14:38

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Camau gan y Sector Tai i Fynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Cham-drin Domestig

Dechreuodd yr eitem am 15:16

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y Cynllun Bathodyn Glas - y wybodaeth ddiweddaraf

Dechreuodd yr eitem am 15:43

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y Chweched Fforwm Cydlyniant

Dechreuodd yr eitem am 16:13

## 8 Rheoliadau (Gweithdrefnau a Ffioedd) Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014

Dechreuodd yr eitem am 16.47

**NDM5561 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

**9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Dadreoleiddio: Diwygiadau mewn perthynas â Phedolwyr a Chytundebau Cartref-Ysgol**

Dechreuodd yr eitem am 16.48

**NDM5525 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau yn y Bil Dadreoleiddio, sy'n ymwneud â Phedolwyr a Chytundebau cartref-ysgol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 7 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 16.58

Daeth y cyfarfod i ben am 16.59

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 17 Medi 2014**